

'Y Ffordd'

Bwriedir cychwyn dilyn cwrs newydd 'Y Ffordd', a baratowyd ar gyfer yr eglwysi gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yng nghapel Carmel nos Fawrth, Ionawr 17.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Pwyllgor Gwaith y Cyfarfod Chwarter yn festri Bethlehem, Talybont fore Mawrth, Ionawr 10.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ionawr 15: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Ionawr 10: Bore Coffi rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Nos Wener, Ionawr 13: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 15: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Huw Tegid Roberts ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Huw Pritchard. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ionawr 15: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Y mis nesaf - Deiniolen

Ionawr 8

5.00 p.m. - Mrs Nerys Griffith

Ionawr 15

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Ionawr 22

3.30 p.m. - Cyfarfod Gweddi

Ionawr 29

5.00 p.m. - Mr John Roberts

Dydd Iau, Ionawr 12: Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 15: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.

CARMEL

Dydd Llun, Ionawr 9: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Ionawr 13: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 15: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dylan Rhys Parry, Llandudno.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Ionawr 9: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro am 10.30 o'r gloch, a Phwyllgor Ymddiriedolwyr Efe yng Nghapel Caethro am 4.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Ionawr 15

10.00 a.m. - Huw Tegid Roberts

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard

Ionawr 22

10.30 a.m. - OEDFA DEULU

Ionawr 29

10.00 a.m. - Y Canon Idris Thomas

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Dewi T Morris



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 711: Dydd Sul, 08 Ionawr, 2017

O'r fath newid

Ar ddechrau blwyddyn, ni allwn ddweud beth a ddaw dros y misoedd nesaf. O ran gwleidyddiaeth, beth bynnag, dangosodd y llynedd y gall y pethau mwyaf rhyfedd ddigwydd yn sydyn. Siglwyd sawl mur, syrthiodd ambell un cadarn, a synnodd pawb at rai o'r pethau a ddigwyddodd. Mae'r byd yn wahanol iawn i'r hyn ydoedd flwyddyn yn ôl.

Ac er nad yw'r byd, gwaetha'r modd, o reidrwydd yn well o ganlyniad i'r pethau a ddigwyddodd y llynedd, y mae'r daeargrynfeydd gwleidyddol a gaed yn ein hatgoffa y gall pethau newid mewn byr o dro. Gweddiwn y daw newidiadau mawr eleni eto. Nid newidiadau o'r fath a gafwyd llynedd, ond newidiadau cyffrous ym mywyd a gwaith Eglwys Iesu Grist.

Mor hawdd yw cynefino â'r sefyllfa y buom ynndi ers blynyddoedd, ac mor rhwydd yw derbyn mai'r unig beth sy'n bosibl i'r Eglwys Gristnogol yn ein gwlad yw parhad o'r hyn a welodd y rhelyw ohonom ar hyd ein hoes. Yr hyn a welsom yw dirywiad a llesgedd a marweidd-dra ysbrydol. Ond nid oes reol sy'n dweud mai'r hyn a wynebwn o reidrwydd yw parhad o hynny. Pam na all y flwyddyn newydd hon ddod â newid mawr i fywyd ein heglwysi? Pwy a wŷr na all Duw, ac na fydd Duw yn trugarhau eleni ac yn bywhau ei waith yma yng Nghymru? Mynnwn fod pob dydd yn gyfle newydd i geisio bendith Duw i'w Eglwys. Ceisiwn bethau mawr a bendithion mawr eleni.

Do, cafwyd eto gyfarchion ffrindiau a dieithriaid, rhaglenni radio a theledu'n bwrw golwg nôl dros yr hen flwyddyn, fflachiadau tân gwyllt, sŵn cloch yr eglwys, seiniau cyfarwydd *Auld Lang Syne* a defodau teuluol i groesawu'r flwyddyn newydd. (Pethau cwbl ddieithr i mi erioed fu'r Calennig a'r Fari Lwyd y bydd llawer o Gymry'n sôn amdanynt adeg y Calan.)

Mor gyfarwydd y dathliadau nes i ni deimlo mai newydd droedio'r llwybr hwn oeddem o'r blaen, er bod wrth gwrs ddeuddeg mis wedi mynd heibio ers i ni wneud hynny. Gadael yr hen a chamu i flwyddyn newydd unwaith eto. Ond fel y dywed Josua mewn cyswllt arall, 'nid ydych wedi tramwyo'r ffordd hon o'r blaen' (Josua 3:3). Yn ôl y diffiniad, mae'r flwyddyn newydd yn amlwg yn *newydd*. Nid troedio'r un llwybrau a wnawn wrth gamu iddi. Mae pob mis a phob dydd, pob munud a phob eiliad yn newydd, a'r cyfan yn rhodd Duw i'w fyd ac i'w greaduriaid.

A chan mai rhodd werthfawr Duw i ni yw'r flwyddyn newydd, gweddiwn am y gras a'r nerth i wneud yn fawr o bob dydd ac o'r cyfleoedd a fydd eleni i fwynhau bendithion Duw. Daw pob dydd â'i gyfle i ymddiried yng ngofal yr Arglwydd ac i'w wasanaethu. Daw pob dydd â'i wahoddiad i fwynhau Duw a'i gwmini. A daw pob dydd â'i her i ni glodfori Duw am ei drugaredd a'i gariad atom yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'O Dduw, clywsom â'n clustiau, dywedodd ein hynafiaid wrthym am y gwaith a **BEIBL BYW** wnaethost yn eu dyddiau hwy, yn y dyddiau gynt â'th law dy hun. Gyrraist genhedloedd allan, ond eu plannu hwy; difethaist bobloedd, ond eu llwyddo hwy; oherwydd nid â'u cleddyf y cawsant y tir, ac nid â'u braich y cawsant fuddugoliaeth ond trwy dy ddeheulaw a'th fraich di, a llewyrch dy wyneb, am dy fod yn eu hoffi' (Salm 44:1-3).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan Mrs Nerys Griffith.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch wedi ei threfnu gan Megan Tomos.

Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mrs Megan Jones yn Capel Coch ddydd Gwener, Rhagfyr 23. Cafodd ei magu yng Nghoedmawr, Llanberis ac wedi iddi briodi ag Alun Jones, symudodd y ddau i Borth Talbot, lle cafodd Alun swydd yn y Gwaith Dur yn y dref. Buont yn aelodau yng nghapel Grove Place am 67 o flynyddoedd cyn dychwelyd i'r Gogledd. Wedi colli ei phriod, ac wedi i'w hiechyd ddirywio cafodd ofal da mewn cartref nyrso yn Llandrillo-yn-rhos, lle bu farw yn 96 mlwydd oed ar Ragfyr 19.

Cydymdeimlwn â'i merch Janine a'i mab Brian a'u teuluoedd yn eu profedigaeth. Roedd y gwasanaeth yn Capel Coch ac ym Mynwent Nant Peris yng ngofal y Gweinidog. Diolch i'r organydd, Bethan Holding, am ei gwasanaeth.

Angladd

Bu farw Mrs Grace Ellen Jones, Cartref Preswyl Y Foelas, Llanrug ddydd Mawrth, Rhagfyr 20 yn 85 mlwydd oed. Cafodd ei magu yng Nghlwt y Bont, ac yr oedd yn falch iawn o'i gwreiddiau yno hyd y diwedd. Wedi iddi briodi â'r Parchg Richard Jones, a oedd ar y pryd yn weinidog yn Llanrug a Chwm-y-glo, bu'r ddau ohonynt yn byw yn Nowlais, Gravesend, Cwm-gors cyn ymddeol i Wauncaegurwen. Wedi colli ei phriod, ac wedi i'w hiechyd hithau ddirywio dychwelodd i'w chynffin a chartrefu yn Y Foelas, lle cafodd ofal da i'r diwedd. Wedi dod yno, yr oedd yn awyddus iawn i ddod yn aelod o'r eglwys yn Ebeneser, ac er na fedrai ddod i'r oedfaon yr oedd yn falch iawn o gael perthyn i'r eglwys.

Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlogsgfa Bangor ddydd Gwener, Rhagfyr 30 dan arweiniad y Gweinidog a'r Parchg Gwyndaf Jones, Bangor a fu'n gymydog ac yn gyfaill i Gracie a Richard yng Nghwm-gors a Gwauncaegurwen. Yn yr angladd, soniodd Gwyndaf am anwylddeb a graslonrwydd Gracie, ac am ei gwaith yn yr eglwys yng Nghwm-gors.

Cydymdeimlwn â'i theulu yn eu galar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Dafydd ac Ellen Williams a'r teulu, 1 Pentre Helen, Deiniolen o glywed am farwolaeth eu mab Eilir yn 40 mlwydd oed ar Ragfyr 24. Roedd Eilir yn byw ym Manceinion ers blynyddoedd, a bu farw yng nghartref ei rieni yng nghyfraith yn Ne Cymru. Cydymdeimlwn yn arbennig â'i briod Anna, a fu mor dyner ei gofal amdano yn ei waeledd ar hyd y blynyddoedd. Roedd Eilir yn ŵr ifanc annwyl a phoblogaidd; roedd yn hwyliog a ffraeth; ac yn gerddor dawnus. Gwaetha'r modd, ychydig flynyddoedd wedi iddo fynd i Fanceinion i ddilyn cwrs astudio cerddoriaeth, fe'i trawyd yn wael yn 21 mlwydd oed. Bu'n ddewr ac yn ddi-gŵyn yn ei waeledd, a chyda chymorth Anna a'i deulu mynnodd fyw bywyd llawn a llawen.

Cynhaliwyd ei angladd yn Amlogsgfa Bangor fore ddoe, dydd Sadwrn, Ionawr 7 dan arweiniad y Gweinidog a'r Parchg Ted Hughes. Cafwyd teyrngedau i Eilir gan ei frodyr Dylan a Gethin. Annette Bryn Parri oedd yr organydd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mr Dafydd Hughes, 22 Maes Padarn, Llanberis a fu farw ddydd Calan, Ionawr 1. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i blant Llion, Lliwen a Llinos a'u teuluoedd, â'i gymar Shirley a'i theulu hithau, ac â'i fam Mrs Margaret Hughes yng Nghartref

Plas Pengwaith, ac Einir a Geraint a'r teulu cyfan yn eu colled.

Cynhelir gwasanaeth angladd yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis am 12.00 o'r gloch, ddydd Mercher, Ionawr 11.

Cynllun Efe

Mae Andrew Settatree wedi ei benodi i swydd newydd fel Cynorthwydd Gweinidogaethol yn Llŷn ac Eifionydd gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Bydd felly yn gadael ei swydd gyda Chynllun Efe, ddiwedd mis Chwefror mae'n debyg. Llongyfarchwn Andrew ar ei benodiad, a dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol. Daw cyfle eto i wneud hynny yn ffurfiol wrth gwrs, yn nes at ddiwedd Chwefror. Am y tro, bydd yn parhau â'i waith yn ein plith; ac edrychwn ymlaen at gael ei wasanaeth dros yr wythnosau nesaf. Mae Andrew wedi gwneud gwaith ardderchog ers iddo gael ei benodi dros wyth mlynedd yn ôl, a bydd yn chwith iawn hebdo yn y gwahanol gyfarfodydd y bu yn eu harwain ac yn cyfrannu atynt.

Bydd Ymddiriedolwyr Cynllun Efe yn cyfarfod yfory yng Nghapel Caethro yn un o'u pwyllgorau rheolaidd, ac yn naturiol bydd angen i ni ddechrau trafod y camau nesaf yng ngwaith y Cynllun. Boed i Dduw ein harwain a dangos i ni sut orau i drefnu'r gwaith er gogoniant i'w Enw.

Y Nadolig

Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch a fu'n paratoi ar gyfer y gwahanol oedfaon a gafwyd o fewn yr Ofalaeth i ddathlu'r Nadolig. Cafwyd oedfaon amrywiol a roddodd gyfle i ni addoli a dathlu'r Geni yng nghwmni plant yr ysgolion Sul a'r ieuencid. Cawsom hefyd addoli gydag aelodau eglwys eraill y fro mewn mwy nag un oedfa undebol. Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr oedfaon ac i bawb a fu'n helpu mewn unrhyw ffordd.